Cyllid & Tollau EM

# Cosbau credydau treth

Pan fyddwch yn hawlio Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith, rydych yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr wybodaeth ar eich ffurflen hawlio'n gywir.

Darllenwch y daflen wybodaeth hon os gwnaethom godi cosb arnoch ar ôl gwirio'ch hawliad credydau treth. Mae'n rhoi gwybod i chi:

- yr hyn sy'n debygol o ddigwydd nesaf
- yr hyn y gallwch ei wneud os codwn gosb arnoch
- sut i ofyn am ailystyriaeth os ydych yn anghytuno â'r gosb

Mae gwybodaeth am sut a pham yr ydym yn cynnal gwiriadau credydau treth yn nhaflenni gwybodaeth WTC/FS1, 'Tax credits enquiry', a WTC/FS2, 'Tax credits examinations'. Byddwn fel arfer yn rhoi'r rhain i chi pan fyddwn yn dechrau gwiriad.

Gallwch gael copi ar-lein, ewch i www.gov.uk a chwilio am WTC/FS1 neu WTC/FS2.

## Pam rydym yn codi cosbau

Rydym yn codi cosbau er mwyn:

- annog pobl i fod yn ofalus ac i wneud yn siŵr bod eu hawliadau'n gywir yn y dyfodol
- atal cwsmeriaid rhag rhoi gwybodaeth anghywir i ni yn y dyfodol
- cosbi'r bobl sy'n ceisio twyllo'r system

## Cosbau

Gallwn godi cosb o hyd at £3,000 arnoch os gwnaethoch roi'r wybodaeth anghywir i ni'n fwriadol neu oherwydd esgeulustod:

- yn eich hawliad
- wrth roi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau
- wrth roi gwybodaeth i ni fel rhan o'n gwiriadau

Gallwn hefyd godi cosb o hyd at £300 arnoch os ydych wedi methu â rhoi gwybodaeth i ni neu wedi methu â rhoi gwybod i ni am rai newidiadau mewn amgylchiadau cyn pen un mis o'r newidiadau'n digwydd.

Byddwn yn esbonio pam rydym yn credu eich bod wedi methu â rhoi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau cyn pen un mis, neu pam rydym yn credu eich bod wedi datgan yr wybodaeth anghywir yn fwriadol. Os na fyddwch yn derbyn ein hesboniad, gallwch ofyn i dribiwnlys annibynnol benderfynu.

Os credwn eich bod wedi troseddu, efallai y byddwn yn cynnal ymchwiliad ac yn eich erlyn. Os bydd hyn yn digwydd, ni fyddwn yn codi cosb arnoch.

## Beth yw gwall bwriadol?

Gwall bwriadol yw pan fyddwch wedi rhoi gwybodaeth anghywir ar bwrpas. Mae hyn yn cynnwys hawlio am elfen o gredydau treth nad oes gennych hawl iddi, neu gynyddu elfen drwy wneud datganiad ffug am eich amgylchiadau.

Gall hyn gynnwys:

- hawlio am blant nad ydynt yn bodoli, neu'r nifer anghywir o blant
- hawlio am gostau gofal plant pan na chaiff rhai eu talu
- hawlio am gostau gofal plant sy'n uwch na'r hyn a delir mewn gwirionedd
- hawlio am berson ifanc fel pe bai mewn addysg/hyfforddiant sy'n cyfrif ar gyfer credydau treth pan nad yw hynny'n wir
- rhoi'r wybodaeth anghywir i ni am oriau gwaith, megis:
  - honni eich bod yn gweithio pan nad yw hynny'n wir
  - honni eich bod yn gweithio dros 16 neu 30 awr pan nad yw hynny'n wir
  - parau â phlant, sy'n honni eu bod yn gweithio cyfanswm ar y cyd o 24 awr pan nad ydych yn gweithio'r oriau hynny, heb wneud hynny'n ddiweddar a heb unrhyw fwriad o wneud hynny
- honni eich bod yn y carchar, yn glaf mewnol yn yr ysbyty neu'n analluog pan nad yw hynny'n wir

## Help gyda chredydau treth

I gael rhagor o wybodaeth:

- ewch i www.gov.uk/taxcredits
- gwyliwch fideo ynghylch gwiriadau credydau treth yn www.youtube.com/watch?v=pIKkkeGhdxI
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900
- defnyddiwch *NGT text relay* (os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn) 18001 ac yna 0345 300 3900
- ysgrifennwch atom yn:
  Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
  HMRC
  BX9 1ST

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch wybod i ni beth yw'ch:

- enw llawn
- rhif Yswiriant Gwladol
- rhif ffôn yn ystod y dydd

### Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEM' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

### Cwynion

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefn gwyno, ewch i www.gov.uk/cwyno-am-cthem

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM am ragor o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Grŵp Gwasanaethau Cwsmeriaid CThEM
Ebrill 2021 © Hawlfraint y Goron 2021

- honni bod gennych hawl i Lwfans Gofalwr pan nad yw hynny'n wir
- honni bod gennych hawl i'r elfen anabledd pan nad yw hynny'n wir
- rhoi gwybod i ni fod eich incwm yn llai nag yr oedd mewn gwirionedd
- peidio â rhoi gwybod i ni am ffynhonnell incwm
- hawlio fel person sengl pan fo gennych bartner, ac mae'n amlwg y dylid bod wedi hawlio ar y cyd
- gwneud unrhyw ddatganiadau anghywir eraill pan fo'r wybodaeth yn ymwneud â'ch amgylchiadau chi, y gellir disgwyl yn rhesymol i chi wybod amdanynt

## Cyplau

Os ydych wedi hawlio ar y cyd gyda'ch partner, mae'r ddau ohonoch yn gyfrifol am yr wybodaeth a rowch yn eich hawliad.

Efallai y byddwn yn codi cosb arnoch fel cwpl pan ddylai'r naill neu'r llall ohonoch fod wedi:
- rhoi gwybod i ni am unrhyw newid mewn amgylchiadau
- rhoi gwybodaeth newydd i ni

Os yw'r wybodaeth yn ymwneud ag un aelod o gwpl, ac na fyddai'n rhesymol i'r partner wybod for yr wybodaeth yn anghywir, byddwn dim ond yn codi cosb ar y partner a oedd yn gwybod ei bod yn anghywir.

Mae'r gosb uchaf ar gyfer cais ar y cyd yr un fath a'r gosb uchaf ar gyfer cais unigol.

## Symiau'r cosbau

Gellir codi'r gosb uchaf o £300 os na fyddwch yn:
- rhoi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau cyn pen un mis ohono'n digwydd
- datgan amgylchiadau neu incwm pan ofynnir i chi wneud hynny yn ystod adolygiad blynyddol
- cydymffurfio â chais am wybodaeth - mae'n rhaid i ni ofyn i dribiwnlys annibynnol osod y gosb hon

Os bydd unrhyw un o'r methiannau hyn yn parhau, efallai y codwn gosb o hyd at £60 y dydd.

Mae lefelau'r cosbau ar gyfer datganiad sy'n fwriadol anghywir wrth rannu unrhyw wybodaeth arall fel a ganlyn:
- ar gyfer y datganiad anghywir cyntaf, cosb o 30% o'r swm a or-hawliwyd gennych (hyd at uchafswm o £3,000)
- ar gyfer yr ail ddatganiad anghywir, cosb o 50% o'r swm a or-hawliwyd gennych (hyd at uchafswm o £3,000)
- ar gyfer y trydydd datganiad anghywir, neu'r datganiad anghywir dilynol, cosb o 100% o'r swm a or-hawliwyd gennych (hyd at uchafswm o £3,000)

Os nad ydych yn deall ein hesboniad o'r gosb, gallwch ofyn i ni ei nodi'n ysgrifenedig er mwyn i chi allu cael cyngor annibynnol.

## Llog

Gallwn godi llog arnoch os byddwch yn talu cosb yn hwyr. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydym o'r farn eich bod wedi dod yn agored i dalu cosb. Gallwn wneud hyn:
- dros y ffôn
- mewn cyfarfod
- yn ysgrifenedig

Byddwn yn rhoi gwybod i chi:
- yr uchafswm y gallwn ei godi arnoch
- swm y gosb yr ydym yn bwriadu ei chodi arnoch a pham

Rydym bob amser yn fodlon trafod swm y gosb â chi, a'r rhesymau dros godi'r gosb.

## Trefniadau talu

Byddwn yn trafod y trefniadau ar gyfer talu:
- unrhyw gredydau treth a ordalwyd
- y gosb
- unrhyw log sy'n ddyledus

Gallwch dalu â cherdyn debyd neu drwy Ddebyd Uniongyrchol gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a bancio dros y ffôn.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i dalu, ewch i www.gov.uk/dealing-with-hmrc/paying-hmrc
Fel arall, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900

## Cydweithredu

Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu gostwng neu atal eich taliadau credydau treth presennol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym.

Mae i fyny i chi i ba raddau y byddwch yn cydweithredu â ni ac yn rhoi gwybodaeth i ni. Os nad ydych yn siŵr a ddylech roi'r wybodaeth i ni, neu os ydych yn anfodlon cydweithredu, awgrymwn eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn penderfynu beth i'w wneud.

Mae nifer o sefydliadau annibynnol yn cynnig help gyda chredydau treth, er enghraifft Cyngor ar Bopeth.

Ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg neu gallwch ddod o hyd iddynt yn 'Y Llyfr Ffôn'.

## Ynglŷn â'n penderfyniad

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad os ydym yn:
- gofyn i chi dalu cosbau neu log ar ordaliad
- newid eich dyfarniad

ond dylech wneud yn glir yr hyn yr ydych yn gwneud cais i ni ei ailystyried

Rydym yn galw hyn yn ailystyriaeth orfodol. Bydd ein hysbysiad o benderfyniad yn rhoi gwybod i chi sut i ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad.

Mae ein taflen WTC/AP, 'Beth i'w wneud os credwch fod eich Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith yn anghywir' yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut i ofyn am ailystyriaeth.

Ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am WTC/AP.

Os codwn gosb arnoch, byddwch yn cael copi o'r daflen hon gyda'n hysbysiad o benderfyniad.

Ni fyddwn yn trin eich cais am ailystyriaeth fel diffyg cydweithredu.

## Tribiwnlysoedd annibynnol

Os na allwn newid ein penderfyniad, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Cewch hyd i wybodaeth am hyn yn ein hysbysiad o ailystyriaeth orfodol.